

## **Sylwadau ar yr Adolygiad Annibynnol o S4C ac ymateb Llywodraeth y DU Ebrill 2018**

Mae TAC wedi paratoi'r sylwadau isod mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.

### **Argymhelliad 1**

**Dylai'r llywodraeth ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac ar-lein a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei orwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd yn y DU a thu hwnt.**

- Mae TAC yn cytuno â'r argymhelliad hwn. O ystyried y newidiadau mewn patrymau gwyllo, mae'n hanfodol fod gan S4C fwy o ryddid i weithredu ar bob plattform er mwyn darparu cynnwys i'w chynulleidfa.

### **Argymhelliad 2**

**Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei ddylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg.**

- Mae TAC yn croesawu sylw'r Llywodraeth yn ei ymateb y dylai hyb digidol arfaethedig S4C gael ei ddatblygu "gan roi ystyriaeth ofalus i'r effaith ar sector cynhyrchu annibynnol hyfyw Cymru, sydd eisoes yn cynhyrchu llawer o gynnwys llwyddiannus o ansawdd uchel." Yn amlwg, rydyn ni o'r un farn, ac rydyn ni'n gobeithio bydd S4C yn parhau â'i harfer o droi at y sector cynhyrchu yng Nghymru yn gyntaf wrth alw am greu cynnwys newydd.
- Roedd y buddsoddiad mewn datblygu digidol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer Bargen Sector y Diwydiannau Creadigol ym mis Mawrth o ddi-ddordeb mawr i TAC. Rydyn ni eisoes wedi cefnogi cais ar gyfer clwstwr ymchwil a datblygu rhanbarthol, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i'n haelodau gael mynediad i ffynonellau ariannu ychwanegol. Mae'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, ar y cyd ag S4C, yn cyfrannu'n helaeth at gryfhau economi'r wlad, ac mae nifer gynyddol o gwmnïau'n cyflenwi cynnwys ar-lein, arloesol, cynyddol boblogaidd i S4C bellach.
- Fodd bynnag, gan nad oes cynnydd i gyllideb S4C i sefydlu'r hyb digidol, mae'n destun pryder i TAC y gallai'r gwariant hwn ddeillio o ostyngiad yn y gyllideb rhaglenni y mae S4C yn ei gwario yn y sector cynhyrchu. Mae cyhoeddiad pellach S4C y bydd yn gwario £3m ar ddatblygu'r hyb dros y tair blynedd nesaf yn dwysáu'r pryder hwn, yn enwedig os bydd y rhan fwyaf o'r gwariant ar seilwaith mewnol yn hytrach ma chynnwys, a fydd yn eithrio'r sector annibynnol yn gyfangwbl. Mae safbwynt TAC ar 'ariannu digonol' i S4C wedi pwysleisio'n gyson y bydd gofyn gweld cynnydd addas yn y gyllideb er mwyn diwallu'r angen i ehangu argaeledd plattfformau a gwasanaethau i'r gynulleidfa.

- Hyd yn hyn, mae cynnwys ar-lein ac i'r rhwydweithiau cymdeithasol wedi targedu demograffig cynulleidfa iau, ond mi fydd angen ehangu hyn i ddarparu cynnwys ffurf fer i gynulleidfa hŷn, ac yn y pen draw, cynnwys ffurf hirach i gynulleidfa o bob oed. Mae angen i S4C ddiffinio cwmpas y datblygiadau hyn, ac ehangu amrywiaeth ei chyflenwyr o blith cwmnïau cynhyrchu sy'n cyflenwi'r cynnwys sydd ei angen arni.

### **Argymhelliad 3**

**Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

- Mae TAC yn cytuno â'r argymhelliad hwn, ac yn croesawu'r ymateb cadarnhaol a gafodd gan y llywodraeth. Hoffem weld S4C a Llywodraeth Cymru'n buddsoddi mewn menter ar y cyd er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, a allai gynnig ffynhonnell incwm amgen i gefnogi hyb digidol S4C. Mi fydd yn hanfodol fod y sector cynhyrchu annibynnol yn bartner yn y fenter, am mai yma ceir y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i greu cynnwys i gyflenwi'r ymrwymiad hwn.

### **Argymhelliad 4**

**Dylai S4C gael ei ariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi drwydded y BBC.**

- Mae TAC yn ystyried fod S4C yn rhan hollbwysig o dirwedd cyfansawdd darlledu cyhoeddus yn y DU. Rydyn ni'n gefnogol i barhad trosolwg llywodraeth y DU dros y gwasanaeth, ac yn edrych ymlaen at barhau i ddatblygu perthynas waith gadarn gyda DCMS.
- Hoffai TAC nodi bod Cadeirydd yr Adolygiad, yn ei adroddiad, yn cytuno â'r "mwyafrif o'r cyfranwyr a ddywedodd mai'r peth pwysicaf i S4C yw sefydlogrwydd a thryloywder o ran cyllid." Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni'n falch fod lefel cyfredol y grant i S4C gan DCMS yn sefydlog tan ddiwedd cyfnod presennol yr Adolygiad Gwariant.
- Fodd bynnag, os bydd cyllideb gyfan S4C yn deillio o'r Ffi Drwydded Deledu o 2022/23 ymlaen, mi fydd nifer o faterion i'w hystyried. Yn gyntaf, mi fydd yr hyn a olygir gan 'ariannu digonol' yn codi unwaith eto. Hoffem nodi nad ydy'r BBC wedi derbyn argymhellion yr adolygiad yn swyddogol hyd yn hyn, a fwy na thebyg y bydd yn gwrthwynebu'r farn y dylid cynnal lefel ariannu cyfredol DCMS o £6.7m drwy gynyddu cyfran S4C o'r Ffi Drwydded Deledu.
- Yn ail, mi fydd angen mynd i'r afael â mater annibyniaeth olygyddol S4C er mwyn sicrhau bod y ddau ddarlledwr - S4C a'r BBC - yn parhau i gyflawni eu dyletswyddau craidd yn annibynnol ar ei gilydd. Buasai TAC yn annog yr Ysgrifennydd Gwladol i ystyried y materion hyn yn flaenoriaeth.

### **Argymhelliad 5**

**Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol.**

- Mae TAC yn croesawu'r cyfle i S4C ystyried ffynonellau ariannu ychwanegol posibl a chyfleoedd masnachol drwy gydweithio gydag ystod o bartneriaid. Fodd bynnag, gan mai darlledwr cyhoeddus yw S4C yn bennaf o ran ei hanfod, heb fod ganddo brofiad nac arbenigedd masnachol eang ar hyn o bryd, buasai TAC yn cwestiynu pa mor effeithlon y gall S4C elwa ar ei gynnwys, yn enwedig yn sgil hygyrchedd ieithyddol a allai fod yn rhwystr posibl ar ryw bwynt, waeth cystal yw safon y cynnwys hwnnw.

- Mae aelodau TAC wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad gan ddarlledwyr eraill a dosbarthwyr yn genres ffeithiol a drama dros gyfnod hir. O ganlyniad i hyn, mae S4C wedi medru brocera gwell fargeinion gydag ystod eang o bartneriaid cyd-gynhyrchu. Mi fydd aelodau TAC yn sicrhau eu bod yn parhau i gydweithio'n agos ag S4C wrth i'r darlledwr geisio ymestyn ei bortffolio masnachol, er na ddylai hyn fod ar draul y gylleb rhaglenni na'r strwythur comisiynu.

### **Argymhelliad 6**

**Dylid disodli Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol.**

- Mae TAC yn cytuno bod trosglwyddo i strwythur Bwrdd Unedol a rheoleiddiad llawn gan Ofcom yn synhwyrol, ac yn edrych ymlaen at weld manylion llawn y cynnig.
- At ddiben trafodaethau ar strategaeth comisiynu a'i effaith ar y sector annibynnol, hoffai TAC awgrymu y dylid ystyried penodi aelod o Gyngor TAC i'r bwrdd arfaethedig er mwyn sicrhau bod y sector wedi ei gynrychioli ar y lefel uchaf.

### **Argymhelliad 7**

**Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C.**

- Nid oes gan TAC wrthwynebiad i'r argymhelliad hwn.

### **Meysydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad annibynnol**

Yn ogystal â'r farn a fynegwyd uchod ar argymhellion yr adroddiad, hoffai TAC fynegi barn ar gyfleoedd eraill i'r sector cynhyrchu gydweithio ag S4C a darlledwyr eraill yn y DU.

### **Cynrychiolaeth TAC o'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru**

- Mae TAC yn gweithio'n galed i gynrychioli buddiannau ei ystod o aelodau ledled Cymru. Ymhlith yr aelodau, mae pum cwmni cynhyrchu mwyaf Cymru, ac mae dros 60% o'r aelodaeth yn gwmnïau bach. Adlewyrchir yr amrywiaeth hon ar Gyngor TAC.
- Mewn cyflwyniad i RTS Cymru ar 19 Ebrill 2018, dywedodd Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C, fod y darlledwr yn falch o gydweithio â bron i 50 o gwmnïau cynhyrchu yn y sector annibynnol. Mae hyn fel yn gwrthgyferbynnu a'r argraff a geir yn yr Adolygiad fod S4C dim ond yn gweithio gyda nifer fach o gwmnïau mawr. Mae TAC yn cytuno bod y sefyllfa go iawn yn llawer mwy amrywiol, a gall gadarnhau y gwneir pob ymdrech i feithrin aelodaeth mor gynhwysol â phosibl er mwyn cynrychioli buddiannau'r sector yn y modd gorau posibl.

### **Cronfa'r Public Service Contestable Fund**

- Roedd TAC yn falch o dderbyn gwahoddiad i drafod y gronfa gyda DCMS ym mis Mawrth, yng nghyd-destun y posibiladau o ddatblygu talent yn y cenedloedd yn yr iaith Gymraeg a'r Saesneg. Mae nifer o'n haelodau eisoes yn cyflenwi cynnwys i sawl darlledwr cyhoeddus yn y DU, a bydd TAC yn archwilio'r cyfleoedd pellach a fydd yn codi yn sgil sefydlu'r gronfa er mwyn galluogi i sector cynhyrchu Cymru ymestyn ei gyrhaeddiad comisiynu.